# Yr ASB yn cyhoeddi penodi Junior Johnson yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau

Bydd Junior yn dechrau yn ei rôl ym mis Mai. Ar hyn o bryd mae'n Ddirprwy Gyfarwyddwr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan arwain is-adran Craffu, Perfformiad ac Ymgysylltu Carchardai, lle mae wedi arwain gwaith ar dryloywder perfformiad ar draws y system carchardai a phrawf gyfan.

Meddai ein Prif Weithredwr, Emily Miles: 'Rwyf wrth fy modd bod Junior yn ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae'n dod atom gyda hanes cadarn o gyflawni gweithrediadau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae ganddo angerdd dros arweinyddiaeth gynhwysol a chyflawni cryf. Daeth i'r brig ymhlith carfan gref iawn o ymgeiswyr am y swydd hon.

'Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Simon Tunnicliffe, sydd wedi bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro yn y cyfamser, ac a fydd yn parhau felly nes i Junior ddechrau arni. Mae Simon wedi bod yn gwneud gwaith gwych ar adeg heriol o safbwynt gweithrediadau, ac rydym wedi bod mewn dwylo diogel.

Meddai Junior: 'Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ymuno â'r ASB a gweithio gyda'i staff, ei phartneriaid cyflawni a'i rhanddeiliaid i sicrhau bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Rwyf wedi clywed cymaint am yr hyn mae'r ASB yn ei wneud, ac rwy'n llawn edmygedd at y modd mae'r sefydliad wedi rheoli effaith y pandemig wrth fwrw iddi gyda chynlluniau diwygio. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fod yn rhan ohoni'.

## Rhagor am Junior Johnson

Dechreuodd Junior ei yrfa yn y Gwasanaeth Sifil fel swyddog gweinyddol, gan brosesu hawliadau budd-daliadau, a gweithiodd ei ffordd tuag at fod yn rheolwr ar yr holl ganolfannau swyddi yn Llundain, cyn trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Junior yn un o Hyrwyddwyr Hil Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn Noddwr SCS i rwydwaith staff PROUD y sefydliad.